

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Tŷ-croes

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Tŷ-croes yn darparu amgylchedd diogel ac ysgogol ar gyfer disgyblion. Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol sy'n rhoi lles, hapusrwydd a dysgu disgyblion a staff wrth wraidd gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli newid yn dda. Maent yn rhoi sylw gofalus i ddatblygiad staff i sicrhau bod pawb yn arddel gwerthoedd yr ysgol ac yn cyfrannu at yr ethos tîm cryf. O ganlyniad, mae staff a disgyblion yn hapus ac yn teimlo'u eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel.

Mae disgyblion yn teimlo synnwyr cadarn o falchder a pherthyn i'w hysgol a'u bro. Mae eu hymddygiad yn eithriadol o dda. Mae rhieni'n hynod werthfawrogol am ansawdd yr addysg a'r gofal cryf a chefnogol a gaiff eu plant. Mae arweinwyr a staff yn meithrin medrau personol, cymdeithasol a chyfathrebu disgyblion yn dda. Mae rhyngweithio disgyblion ag oedolion yn gwrtais a pharchus.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn ddifyr, yn berthnasol ac wedi'i gynllunio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau'n gynyddol. Mae disgyblion yn canolbwyntio'n dda ar eu dysgu ac yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo dysgu'r disgyblion ac nid ydynt yn darparu digon o her na chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol a gwneud penderfyniadau am eu dysgu. Mae arweinwyr wedi datblygu system effeithiol ar gyfer asesu pob un o'r disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol; maent yn defnyddio hyn i olrhain cynnydd pob disgybl. Fodd bynnag, nid yw defnydd athrawon o asesiadau dyddiol disgyblion yn ddigon effeithiol i gynllunio dysgu dilynol. Nid yw gwerthusiad disgyblion o'u llwyddiannau eu hunain a'u camau nesaf mewn dysgu wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae arweinwyr yn Ysgol Gynradd Tŷ-croes yn fyfyriol ac yn ymdrechu i lwyddo. Mae ganddynt broses hunanwerthuso gynhwysfawr i geisio gwella'r ysgol. Mae arweinwyr a staff ar bob lefel yn gweithio'n galed i wella'r ysgol. Fodd bynnag, er bod arweinwyr wedi sefydlu cylch trylwyr o weithgareddau gwerthuso, nid yw'r drefn ar gyfer adolygu'r effaith a gaiff y gweithredoedd hyn ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn ddigon cadarn. O ganlyniad i arweinyddiaeth a darpariaeth effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai y mae eu hamgylchiadau yn eu gwneud yn agored i dangyflawni, yn gwneud cynnydd da.

# Argymhellion

**A1** **Cryfhau prosesau adolygu o fewn gweithgarwch hunanwerthuso i gael ffocws clir ar effaith gwelliannau ar addysgu a dysgu**

**A2** **Sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu i fireinio eu haddysgu i gefnogi a herio disgyblion yn briodol**

**A3** **Ymgorffori cyfleoedd systematig i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth a'u medrau mewn gwerthuso a gwella'u dysgu eu hunain**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Tŷ-croes |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 190 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 157 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 13 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 21.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 12.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 16/04/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/03/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  16/05/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.